OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 666

# Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Asesu Adnoddau) a Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2014

## RHAN 3

Diwygiadau i'r Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol

**Diwygio Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Taliadau Uniongyrchol) (Asesu Modd a Phenderfynu ar Ad-daliad neu Gyfraniad) (Cymru) 2011**

**6.**—(1) Mae Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Taliadau Uniongyrchol) (Asesu Modd a Phenderfynu ar Ad-daliad neu Gyfraniad) (Cymru) 2011(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn—

(2) Yn rheoliad 5 (yr uchafswm rhesymol o ad-daliad neu gyfraniad sy'n daladwy)—

(a) ym mharagraff (1) yn lle'r ffigur "£50" rhodder y ffigur "£55.00", a

(b) ym mharagraff (2) yn lle'r ffigur "£50" rhodder y ffigur "£55.00".

(3) Yn rheoliad 16(4) (proses yr asesiad modd) ar ddiwedd is-baragraff (d) hepgorer "a" ac ar ôl is-baragraff (d) mewnosoder—

"(da) diystyru £10 o unrhyw daliad incwm gwarantedig goroeswr y cyfeirir ato yn erthygl 29(1)(a) o Orchymyn y Lluoedd Arfog a'r Lluoedd Wrth Gefn (Cynllun Digolledu) 2011 ac, os yw swm y taliad hwnnw wedi ei leihau i lai na £10 gan bensiwn sy'n dod o fewn erthygl 39(1)(a) o'r Gorchymyn hwnnw, gymaint o'r pensiwn hwnnw na fyddai, ynghyd â swm unrhyw daliad incwm gwarantedig goroeswr sydd wedi ei ddiystyru, yn fwy na £10; ac".

(**1**) O.S. 2011/963 (W. 137).